**Eitem 5 ar yr Agenda**
**CfED 19/07/2017**

# Cyngor Datblygu'r Economi

**Papur ar '*Lles y Cyhoedd a Chymru Lewyrchus (Creu system Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol ddiwygiedig)*'**

Gwnaeth yr Ysgrifennydd Addysg ddatganiad a chyhoeddodd bapur ymgynghori ar 20 Mehefin. Mae *'Lles y Cyhoedd a Chymru Lewyrchus (Creu system Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol ddiwygiedig)'* yn datblygu ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Hazelkorn. Bydd ar agor tan 23 Hydref.

## Cefndir

Cafodd Adroddiad Hazelkorn ei gyhoeddi yn 2016 a gwnaeth ddau brif argymhelliad. Yr argymhellion oedd y dylai'r Llywodraeth ddatblygu gweledigaeth drosfwaol ar gyfer y system Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol ddiwygiedig ac y dylid cael corff lled braich newydd fel yr unig awdurdod rheoleiddio a goruchwylio ar gyfer y system ôl-orfodol. Ym mis Ionawr 2017, cafwyd cadarnhad gan y Llywodraeth ei bod yn derbyn yr argymhellion hyn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn sefydlu cynigion ar gyfer datblygu'r diwygiadau sydd eu hangen, ac yn gwahodd safbwyntiau ar rai o'r prif faterion fydd angen mynd i'r afael â hwy mewn deddfwriaeth. Mae'n cynnig dull 'gwnaed yng Nghymru' o fynd i'r afael ag addysg a hyfforddiant ôl-orfodol fel y gall pobl ddysgu a magu sgiliau yn haws drwy gydol eu gyrfaoedd.

Ein huchelgais yw sicrhau twf gyda diben. Rydym yn gwerthfawrogi llewyrch oherwydd y diogelwch a'r lles y gall sicrhau ac rydym am ddatblygu'r economi tra'n lleihau anghydraddoldebau a lledaenu cyfleoedd. Rydym yn bwriadu gwella ein cynhyrchiant fel dull o ryddhau ein potensial i dyfu a gwella gallu y rhai sy'n ennill y cyflogau isaf i ennill mwy. Wrth ganolbwyntio ar gynhyrchiant fel rhan o ddull cytbwys o ddatblygu ein heconomi, swyddi da, a chyfleoedd i bawb, rydym yn cydnabod y sgiliau, yr arloesedd a'r seilwaith fel elfennau hollbwysig o hybu cynhyrchiant.

Mae cysylltiad amlwg rhwng sgiliau a chynhyrchiant. Mae pwysigrwydd sgiliau fel prif sbardun cynhyrchiant yn cael ei gydnabod yn y Papur Gwyn. Heb weithlu o safon uchel, ni ellir gwireddu potensial yr ysgogwyr cynhyrchiant eraill - seilwaith, arloesedd, menter a chystadleuaeth. Mae sgiliau yn galluogi gweithwyr i ddefnyddio'r seilwaith ac arloesedd, i fod yn fwy mentrus a chreu cynnig mwy cystadleuol.

**Golwg Gyffredinol**

Yn ganolog i'r ymgynghoriad mae'r cynigion am gorff newydd. Byddai'r **Comisiwn Addysg ac Ymchwil Trydyddol ar gyfer Cymru** yn disodli Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac yn darparu cyfeiriad ac arweiniad ar gyfer y sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol cyfan. Byddai'n tynnu ar arferion gorau ledled y byd.

Prif ffocws y Comisiwn fyddai:

a. gwarchod buddiannau dysgwyr a sicrhau bod yr un gwerth yn cael ei roi i lwybrau gyrfa galwedigaethaol ac academaidd;
b. trwy newidiadau i'r cynllunio a'r cyllido strategol, sicrhau bod y ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yn cyd-fynd yn well ag anghenion cyflogwyr yng Nghymru, gan helpu i adeiladu economi gryfach yn y dyfodol.

Byddai swyddogaethau'r Comisiwn yn cynnwys:

- cynllunio addysg a sgiliau yn strategol ar draws y ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol;
- y cyllid, asesu a gwella ansawdd, a rheoli perfformiad/risg ar draws y ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol;
- goruchwylio a chydlynnu gwariant ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru;
- arwain ar newid fesul cam i'r data sydd ar gael, gan gynnwys mesur datblygiad addysgol, cyrchfannau a deilliannau.

**Ymchwil**

Byddai gan y Comisiwn gyfrifoldeb dros gydlynnu gwaith ymchwil a'r gallu ar gyfer cyllid ymchwil ôl-radd mewn dull mwy strategol a deinamig. Byddai pwyllgor y Comisiwn (Ymchwil ac Arloesi Cymru) yn arwain ar hyn. Yn wahanol i Loegr, rydym yn bwriadu cadw manteision y cysylltiadau cenedlaethol/sefydliadol rhwng ymchwil, arloesi, dysgu, datblygu sgiliau a dysgu'n seiliedig ar waith.

Bydd yn cymryd amser i weithredu'r newidiadau hyn. Bydd ymgynghoriad technegol mwy manwl yn dilyn y Papur Gwyn. Byddai'r newidiadau pellgyrhaeddol hyn yn galw am ddeddfwriaeth helaeth. Yn ystod y cyfnod pontio, bydd y Llywodraeth yn chwilio am aelodau newydd ar gyfer bwrdd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gyda phrofiad o ystod o wahanol feysydd, gan gynnwys busnes.

**Materion i'r Cyngor**

Un o'r prif ysgogwyr y tu ôl i gynigion y Papur Gwyn yw yr angen i hybu cynhyrchiant a sgiliau drwy sicrhau bod y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cyd-fynd yn well ag anghenion cyflogwyr a busnesau yng Nghymru.  Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gymuned fusnes yn trafod syniadau y Papur Gwyn yn llawn i helpu i lunio system ôl-orfodol sy'n addas at y dyfodol.

Gwahoddir aelodau'r Cyngor i gynnig sylwadau ar y cynigion ar gyfer y Comisiwn newydd.  Gwahoddir aelodau hefyd i roi cyngor ar y ffordd orau o gynnwys y gymuned fusnes yn natblygiadau y Comisiwn yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion cyflogwyr ac yn cyfrannu at economi gryfach yng Nghymru.